

Canllaw i'r Gwasanaeth Rhif Unigryw'r Dysgwr (ULN) ar gyfer Ysgolion yng Nghymru

Gwybodaeth ar gyfer Ysgolion Uwchradd a gynhelir



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Mae dysgu yn newid

978 0 7504 6257 0
Mai 2011

Canllaw Gam wrth Gam i'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu


Cofrestru fel Corff Cofrestru Dysgwyr (LRB)



Cael mynediad i'r Gwasanaeth LRB



Sefydlu Prosesau a Defnyddio'r Gwasanaeth ULN i Ysgolion



Sut mae dysgu yn newid

Fel canlyniad i Raglen Ddiwygio Cymwysterau Galwedigaethol y DU (UK VQRP), mae cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau sy'n seiliedig ar waith yng Nghymru wedi newid i gwrdd yn well ag anghenion cyflogwyr a dysgwyr. Mae'r cymwysterau QCF newydd wedi'u llunio i fod yn fwy ymatebol i anghenion.

Mae pob cymhwyster yn y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (QCF) ar ffurf 'unedau' o ddysgu. Mae'r unedau hyn yn cynnwys y canlyniadau dysgu gofynnol a'r meini prawf asesu. Mae gan bob uned lefel benodedig a 'gwerth credyd' benodedig. Bydd y lefel yn dangos pa mor heriol yw'r uned i'w chyflawni. Bydd y lefel credyd yn dangos hyd y dysgu - faint o amser yn gyffredinol fydd hi'n ei gymryd i gwblhau'r uned. Caiff

unedau eu cyfuno, gan ddefnyddio 'rheolau cyfuno' i greu cymwysterau. Gallai hyn olygu, er enghraifft, gyfuniad o unedau gorfodol (rhai y mae'n rhaid eu cyflawni) ac unedau opsiynol.

Yn ychwanegol at ddiwygio cymwysterau galwedigaethol, mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn gofyn am well systemau gweinyddu er mwyn crynhoi a chofnodi cyflawniad neu gyrhaeddiad pob dysgwr. Mae cyflwyno dynodwr unigryw ar gyfer dysgwyr yn hanfodol er mwyn cydgrynhoi'r gwahanol gydrannau.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog a chefnogi'r defnydd o'r Rhif Unigryw'r Dysgwr (ULN) fel dynodwr unigol ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru. Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (DCELLS) sydd yn cyflwyno'r ULN. Mae'r ULN yn tanatgu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru a'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (QCF), sy'n rhan o'r

sefydliad ehangach Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW).

Bydd mabwysiadu'r dynodwr unigryw hwn gan bob ysgol uwchradd yng Nghymru yn sicrhau y bydd myfyrwyr yn gyfarwydd â'r ULN o oedran cynnar ac yn sicrhau sefydlu'r defnydd ohono ar draws y sector addysg ehangach.

Beth yw Rhif Unigryw'r Dysgwr?

Rhif 10 digid unigryw yw'r Rhif Unigryw'r Dysgwr (ULN) a roddir i ddysgwyr 14 oed a hŷn yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon gan y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu (LRS). Bydd yr ULN yn aros gyda'r dysgwr gydol ei oes a bydd yn gyswllt rhwng pob dysgu, pa le bynnag fydd y lleoliad. Gellir meddwl amdano fel y cyfwerth addysgol i'r rhif Yswiriant Gwladol (NI).

Pam ei fod yn bwysig?

Bydd yr ULN yn galluogi dysgwyr i lunio cofnod gydol oes o'i gymwysterau a'i gyraeddiadau addysgol – Cofnod Dysgu Personol (PLR) – y bydd yn bosibl edrych arno ar-lein a'i rannu â darparwyr dysgu, ac unigolion proffesiynol sy'n cynghori a chynnig arweiniad, yn ogystal â thrydydd partion megis cyflogwyr pe byddai'n dymuno gwneud hynny.

Bydd yr ULN yn gymorth i gyflawni nifer o swyddogaethau. Er enghraifft, bydd o gymorth i gydgrynhoi data ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Bydd cyrff dyfarnu yn gofyn am yr ULN i ddiobenion cofrestru ar gyfer arholiadau. Dylech ei ddefnyddio wrth gofrestru ar gyfer arholiadau neu gyflwyno ceisiadau am dystysgrifau i gyrff dyfarnu.

Bydd ysgolion angen cynnwys ULNs gyda chofnodion unigol ar System Gwybodaeth Reoli (MIS) yr ysgol a'u cynnwys ar y ffurflen PLASC sef y ffurflen Arweiniad ar gyfer Gwybodaeth Ysgol.

Bydd angen yr ULN hefyd pan fydd dysgwyr (16 oed a throsodd) yn cwrdd â chynghorwyr ar yrfaedd, a bydd y cynghorwyr hyn angen caniatâd y dysgwr i gael mynediad at y PLR neu edrych arno.

Cynlluniwyd yr ULN fel y bo'n



bosibl rhannu data priodol. Er enghraifft, bydd yn golygu llai o waith gweinyddol wrth gofrestru neu ymrestru dysgwyr ar gyfer cwrs, wrth iddynt symud ymlaen o'r ysgol at ddysgu ôl-16, addysg bellach a thu hwnt i hynny i addysg uwch.

Sut mae'r ULN yn debyg i'r Rhif Unigryw'r Disgybl (UPN)?

Ni ellir defnyddio'r Rhif Unigryw'r Disgybl (UPN) y tu hwnt i oedran ysgol. Bydd yr ULN yn aros gyda dysgwyr gydol eu hoes.

Sut mae'r ULN yn debyg i ddynodwyr eraill sydd eisoes yn cael eu defnyddio?

Bydd y defnydd o ULN fel rhif ymgeisydd unigol – fydd dros amser

yn cymryd lle'r Dynodwr Ymgeisydd Unigryw (UCI) a ddefnyddir gan Gyrff Dyfarnu – yn symleiddio'r cofrestru ar gyfer arholiadau ac yn golygu y bydd yn bosibl rhannu gwybodaeth am gyraeddiad a dyfarniadau gyda sefydliadau addysgol eraill ac UCAS. Mewn Addysg Uwch (HE), caiff yr ULN ei gasglu eisoes gan UCAS a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, gan ei gwneud yn bosibl iddo gymryd lle gwahanol ddynodwyr a ddefnyddir gan y ddau sefydliad.

Bydd Cofnod Dysgu Personol (PLR) yn cael ei greu ar gyfer pob dysgwr fydd ag ULN ganddo

Ffeil ar-lein yw'r Cofnod Dysgu Personol, fydd, dros amser, yn datblygu i fod yn gofnod gydol oes o gymwysterau a chyraeddiadau dysgu. Bydd yn galluogi pob dysgwr yng Nghymru i gael mynediad diogel at ei Gofnod Dysgu Personol ac edrych arno dros y rhyngwyd ar wefan

Log Out | Welcome, Hal Angsness | Learning Records Service

Welcome | User Management | Learner Management | Learner Verification | My Account

Achievement Management

Find by ULN | Find by Demographics | Submit Batch Registration | View Batch Registration | View Exceptions

Find Learner by Demographics

Please enter the Learner's details:

Given Name *
Family Name *
Date of Birth * (dd-month/yyyy)
Gender *
Last Known Postcode *

Previous Family Name
School at Age 16
Place of Birth
e-Mail Address

Mandatory fields are marked with an asterisk (*)

Find Learner | Clear

Gyrfa Cymru (www.careerswales.com) unwaith y bydd wedi cyrraedd yr oedran 16 oed (yn amodol ar fod ei hunaniaeth wedi'i wirio ymlaen llaw).

Bydd yr ULN a'r Cofnod Dysgu Personol yn cynorthwyo dysgwyr drwy eu dysgu gydol oes, wrth iddynt fynd am gyngor neu arweiniad ar yrfaeodd ac ymgeisio am swyddi.

Bydd dau olwg gwahanol o'r Cofnod Dysgu Personol yn cael eu darparu – y cofnod llawn a golwg gyfyngedig - i sicrhau bod y dysgwr yn gwbl ymwybodol o'r hyn y bydd defnyddwyr eraill yn ei weld. Bydd pob dysgwr yn cael penderfynu pwy all gael mynediad at ei Gofnod Dysgu Personol a gall rannu'r wybodaeth yn llawn gyda darparwyr dysgu, cynghorwyr ar yrfaeodd a thrydydd partion pe byddai'n dymuno gwneud hynny. Bydd y golwg gyfyngedig ar gael i sefydliadau a enwebir gan y dysgwr (megis cyflogwyr posibl) ac ni fydd yn dangos ond y cyraeddiadau y bydd y dysgwr yn eu dewis a bydd wedi'i gyfyngu i ddangos manylion sylfaenol yn unig.

Ni fydd y Cofnod Dysgu Personol yn cynnwys unrhyw wybodaeth 'gyd-destunol' megis cefndir economaidd-gymdeithasol, ethnigrwydd neu anabledd, na manylion gwaharddiadau neu unrhyw ddiarddeliadau o'r system addysg. Mae mesurau diogelwch ychwanegol yn eu lle ar gyfer dysgwyr bregus a'r rhai sydd mewn sefydliadau i droseddwy. (Am fwy o wybodaeth ar y defnydd o 'destun gwaharddedig'

ewch i wefan yr LRS. Ceir y cyfeiriad ar ddiwedd y daflen hon).

Gall dysgwyr ddewis peidio â rhannu data am eu cyfranogiad a'u cyrhaeddiad. Mae cyfrifoldeb ar ddarparwyr dysgu i roi'r dewis i ddysgwyr o beidio bod yn rhan o'r system. Fodd bynnag, mae'r ULN bellach yn rhan o sawl cymhwyster – megis y rhai sy'n perthyn i'r QCF – felly mae'n bosibl y bydd peidio bod yn rhan o'r system yn cyfyngu ar y broses o weinyddu'r cymwysterau hyn.

Sut fydd fy ysgol yn cael y rhifau ULN i'n myfyrwyr?

Ni all dysgwyr gael ULN ar eu liwt eu hunain. Darparwyr dysgu yn unig all sicrhau ULNs o Gofrestr Dysgwyr y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu.

Ni fydd angen i ysgolion uwchradd gyflwyno data yn uniongyrchol i'r LRS fel mater o drefn er mwyn cael ULNs. O fis Medi 2011, bydd DCELLS yn cyflwyno'r **Gwasanaeth ULN i Ysgolion yng Nghymru**. Bydd hyn yn awtomeiddio'r broses o sicrhau ULNs i ddisgyblion 14 oed a hŷn mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

Bydd angen i golegau chweched dosbarth ac ysgolion preifat gofrestru gyda'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu a sicrhau ULNs i'w disgyblion drwy borth diogel yr LRS – yn yr un modd â darparwyr dysgu eraill – ewch i wefan yr LRS am fwy o wybodaeth.

Er mwyn gwarchod hunaniaeth dysgwyr mewn Ysgolion Arbennig a Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc yng Nghymru, mae DCELLS a'r LRS wrthi'n sefydlu prosesau gweinyddol diogel. Bydd DCELLS yn cyhoeddi canllawiau yn fuan. Yn y cyfamser ni ddylai'r sefydliadau hyn gofrestru dysgwyr ar gyfer ULNs.

Bydd y gwasanaeth ULN yn galluogi DEWi – y system Menter Cyfnewid Data Cymru i ddefnyddio gwybodaeth ddemograffig sydd eisoes ym meddiant yr ysgol ar gyfer y ffurflen PLASC i fynd ar y Gofrestr Dysgwyr a sicrhau ULN i ddysgwyr drwy gyswllt 'gwasanaeth gwefan' yr LRS. Ar ôl i'r ULNs gael eu rhoi, bydd DEWi yn creu dwy ffeil i'r ysgolion eu lawrlwytho:

- (i) ffeil drosoglwyddo gyffredin (CTF) yn cynnwys yr ULNs sydd i'w mewnforio i MIS yr ysgol.
- (ii) ffeil eithriadau ar ffurf Excel.

Mae'r system yn cael ei datblygu i leihau a symleiddio gwaith gweinyddol mewn ysgolion a bod mor dryloyw â phosibl. Bydd ar gael yn llawn o fis Medi 2011 ymlaen.

Beth sydd angen i ysgolion ei wneud?

Bydd angen i bob ysgol sydd am gael ULNs i'w disgyblion wneud y canlynol:

- Sicrhau bod manylion yr ysgol yn gyffredol ar y Gofrestr darparwyr yn www.ukrlp.co.uk a nodi'r Cyfeirnod Darparwr y DU (UKPRN)
- Cofrestru fel LRBs gyda'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu
- Rhoi Hysbysiad Preifatrwydd (neu Brosesu Teg) diwygiedig i ddisgyblion a chofnodi unrhyw ddewis unigol i 'optio allan' o rannu data

The screenshot shows the Learning Records Service (LRS) interface. At the top right is the Learning Records Service logo. Below it is a navigation bar with links: Log Out, Welcome, Hal Angseising, Welcome, User Management, Learner Management, Learner Verification, My Account, and Achievement Management. Below the navigation bar are search filters: Find by ULN, Find by Demographics, Submit Batch Registration, View Batch Registration, and View Exceptions. The main content area is titled 'Find Learner by ULN > Find Learner Results' and includes a 'Find Learner Results' section with a 'Help with this screen' link. Below this is a table of search results. The table has columns: Select, ULN, Given Name, Family Name, Date of Birth, Gender, Postcode, and Master Returned. The search criteria are: You searched for: 3344556880. The results table shows one entry: 3344556880, hal, angel, 18-04-1972, Male, LE2 3QG, No. Below the table are buttons: Manage Learner Plan, View Learner Details and PLR, Report a Problem or Duplicate, and Return to Find.

Unwaith y byddant wedi cofrestru, bydd angen i ysgolion gael mynediad i borth diogel y Gofrestr Dysgwyr i ddiweddarau gwybodaeth ddemograffig am ddysgwyr, i gofnodi dewisiadau o ran rhannu data, ac i ddatrys 'eithriadau'.

Cofrestru eich ysgol gyda'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu (LRS)

Bydd yn rhaid i bob ysgol, coleg a phrifysgol a phob darparwr dysgu a hyfforddiant yn Nghymru gofrestru gyda'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu (LRS) fel Corff Cofrestru Dysgwyr (LRB) fel eu bod yn cael mynediad i borth Sefydliad Cofrestr Dysgwyr yr LRS.

Rhaid i bob LRB gael Cyfeirnod Darparwr y DU (UKPRN) ac, fel cam cyntaf, dylech sicrhau bod manylion mwyaf cyfredol eich sefydliad yn cael eu cynnwys yng Nghofrestr y Darparwyr yn www.ukrpl.co.uk

Bydd yn bwysig bod manylion yr ysgol ar yr UKRPL yn gywir ac yn gyfredol. Dylech ddefnyddio'r un wybodaeth a'r un fformat yn ystod y broses gofrestru gyda'r LRS.

Bydd cofrestru yn golygu lawrlwytho dwy ddogfen oddi ar wefan yr LRS – Ffurflen Cofrestru Sefydliad a Chytundeb Darparwyr Dysgu – a bydd rhaid i aelod o staff ar lefel uwch eu llenwi a'u llofnodi. Unwaith y byddant wedi'u cwblhau, dylid eu hanfon drwy sgan/e-bost, post neu ffacs at yr LRS er mwyn eu

cymeradwyo.

Unwaith y byddant wedi'u gwirio a'u derbyn, bydd yr LRS yn gosod eich cyfrif sefydliad ar y Gofrestr Dysgwyr. Bydd yr 'Uwch Ddefnyddiwr' a enwebir (yr uwch ddefnyddiwr yn eich sefydliad) yn derbyn enw defnyddiwr a chyfrinair i alluogi'r sefydliad i gael mynediad i borth diogel y Sefydliad Cofrestru Dysgwyr a gellir sefydlu defnyddwyr eraill ar y system wedyn.

Beth yw cyfrifoldebau Uwch Ddefnyddwyr?

Bydd Uwch Ddefnyddiwr y Gofrestr Dysgwyr yn gyfrifol am reoli pob defnyddiwr o fewn yr LRB, gan gynnwys sefydlu Uwch Ddefnyddwyr eraill a dileu defnyddwyr. Y rhain hefyd yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer datrys problemau mynediad ac ailosod cyfrineiriau ar gyfer defnyddwyr eraill. Argymhellir y dylai fod gan LRB o leiaf dri Uwch Ddefnyddiwr.

Bydd raid i LRBs sefydlu trefniadau rheoli ar gyfer gweithredu'r Gofrestr Dysgwyr a sicrhau bod y trefniadau priodol ar gyfer trefnu data yn eu lle.

Am fwy o wybodaeth trowch at Ganllaw Defnyddwyr y Gofrestr Dysgwyr yn: www.learningrecordsservice.org.uk/documentlibrary/comms/User+Guide+to+the+Learner+Register



Beth yw Hysbysiad Preifatrwydd (neu Brosesu Teg)?

Testun safonol yw'r Hysbysiad Preifatrwydd sy'n rhoi gwybodaeth i ddysgwyr am y modd y cesglir gwybodaeth bersonol amdanynt a'r modd y prosesir yr wybodaeth honno gan y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu, pa ddefnydd a wneir ohoni a phwy sy'n defnyddio'r wybodaeth. O dan Ddeddf Diogelu Data 1998, mae'n ofynnol hysbysu unigolion am y defnydd a wneir o'u data personol.

Rhaid i bob ysgol sydd am i'w disgyblion gael ULNs roi Hysbysiad Preifatrwydd diwygiedig i'w disgyblion. Mae Hysbysiad Preifatrwydd amlinellol a ddiweddarwyd i gynnwys cyfeiriad penodol at ddefnyddio data personol i ddibenion rhoi ULN, ar gael yn

adran Ysgolion gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dylai pob ysgol lenwi'r manylion lleol perthnasol, sicrhau bod unrhyw drefniadau prosesu data lleol eraill yn cael eu cynnwys, a rhoi copi i bob disgybl fydd yn 14 oed a throsodd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Am fwy o ganllawiau ewch i wefannau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu.

Bydd hawl gan ddisgyblion unigol ofyn am i'r data am eu dysgu sydd yn y Cofnod Dysgu Personol beidio cael ei rannu a rhaid i'r ysgol gofnodi eu dewis i 'optio allan' ar borth y Sefydliad Cofrestru Dysgwyr gyda'r ULN a manylion demograffig cysylltiedig.

Beth yw 'eithriadau'?

Caiff eithriadau eu cynhyrchu gan y Gofrestr Dysgwyr os oes gan bobl, er enghraifft, enwau tebyg neu eu bod yn rhannu'r un dyddiadau geni yn yr un lleoliad, neu os yw'r data anghywir wedi'i fwydo i'r system. Er mwyn sicrhau ansawdd y data, mae'n hanfodol fod ULNs yn cael eu rhoi i'r unigolion cywir gyferbyn â'r data demograffig cywir.

Pan fydd eithriadau yn cael eu hanfon yn ôl i'r ysgol drwy gyfrwng y gwasanaeth DEWi, bydd angen i'r ysgol fewngofnodi i borth y Sefydliad Cofrestru Dysgwyr i ddatrys unrhyw faterion neu gamgymeriadau. Mae canllawiau ar sut i ddelio ag eithriadau yn y Canllaw Defnyddwyr y Gofrestr Dysgwyr ar wefan yr LRS.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael fel a ganlyn:



Y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu

Rhif ffôn Llinell Gymorth: 0845 602 2589
Oriau agor: rhwng 08:00 a 20:00 Dydd Llun i Ddydd Sadwrn
E-bost: lrsupport@learningrecordsservice.org.uk
Gwefan: www.learningrecordsservice.org.uk

Cofrestru: <http://www.learningrecordsservice.org.uk/documentlibrary/forms/Registration.htm>

Canllaw Defnyddwyr y Gofrestr Dysgwyr: <http://www.learningrecordsservice.org.uk/documentlibrary/comms/User+Guide+to+the+Learner+Register.htm>

Canllaw ar Destun gwaharddedig: <http://www.learningrecordsservice.org.uk/datamanagement/Prohibited+Text.htm>

Cwestiynau a ofynnir yn aml: <http://www.learningrecordsservice.org.uk/about/faqs/>

Y Gofrestr Darparwyr Dysgu: www.ukrlp.co.uk

Hysbysiadau Preifatrwydd i Ysgolion, gwybodaeth ychwanegol a chanllawiau ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru: <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/learnerregistration/?lang=en>

Gallwch ddarganfod mwy am Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru drwy fynd i'r wefan: www.cqfw.net

Am ymholiadau e-bost: cqfwenquiries@wales.gsi.gov.uk



CREDIT & QUALIFICATIONS
FRAMEWORK FOR WALES
FFRAMWAITH CREDYDAU
A CHYMWYSTERAU CYMRU

Rhestr termau

CQFW

Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)

DCELLS

Adran Plant, Addysg, a Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS)

DEWi - Menter Cyfnewid Data Cymru.

Cafodd DEWi ei ddatblygu i ddarparu cyfleuster trosglwyddo diogel penodol i Gymru i'w ddefnyddio gan ysgolion, awdurdodau addysg lleol (AauLl) a sefydliadau canolog.

FPN

Hysbysiad Prosesu Teg (neu Breifatrwydd)

HE

Addysg Uwch (AU)

HESA

Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (AYAU)

ID

Hunaniaeth/ Adnabyddiaeth

LLWR

Adroddiad Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru

LR

Y Gofrestr Dysgwyr

LRB

Y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu

LRS

Y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu

MI/MIS

Gwybodaeth Reoli/System(au) Gwybodaeth Reoli

NI Number

Rhif Yswiriant Gwladol

PLR

Y Cofnod Dysgu Personol

QCF

Fframwaith Cymwysterau a Chredydau

UCAS

Y sefydliad sy'n gyfrifol am reoli ceisiadau i raglenni gradd israddedig ym mhrifysgolion a cholegau'r DU

UCI

Dynodwr Unigryw'r Ymgeisydd

UKPRN

Cyfeirnod Darparwr y DU

UKRLP

Cofrestr Darparwyr Dysgu y DU (y cyfeirir ati hefyd fel Cofrestr Darparwr Dysgu)

UKVQRP

Rhaglen Ddiwygio Cymwysterau Galwedigaethol y DU

ULN

Rhif Unigryw'r Dysgwr (RhUD)

WBL

Dysgu Seiliedig ar Waith

